



YSGOL I.D. HOOSON

23.02.21

PWYSIG

Annwyl Rieni / Gofalwyr,

Yn dilyn cyhoeddiad diweddaraf gan yr Awdurdod Lleol ynglŷn ail-agor ysgolion, hoffwn eich hysbysu o'r trefniadau ar gyfer y plant yn dychwelyd i'r ysgol. Gan gychwyn o ddydd Gwener Chwefror 26ain ymlaen, bydd disgyblion cyfnod sylfaen yn dychwelyd yn raddol i'r ysgol. Rydym wedi nodi'r dyddiau a'r amseroedd ar gyfer y grwpiau penodol o blant ar yr amserlen isod. Erbyn dydd Mercher Mawrth 3ydd, bydd pob un o ddsbarthiadau'r cyfnod Sylfaen wedi dychwelyd.

Ar hyn o bryd, bydd disgyblion cyfnod allweddol dau, sef blynyddoedd 3,4, 5 a 6 yn parhau gyda threfniadau dysgu ar lein/dysgu cyfunol, gyda'r gobaiith y bydd CA2 yn gallu cychwyn dychwelyd o'r 15fed o Fawrth ymlaen. Byddwn yn eich diweddarau o'r trefniadau ynglŷn â phlant CA2 yn nes at yr amser wrth i ni dderbyn diweddariadau pellach gan Lywodraeth Cymru a'r Awdurdod Lleol.

Gweler isod yr amserlen ar gyfer trefn dychwelyd i'r grwpiau oedran gwahanol:

	Gwen/Frid 26.02.21	Llun/Mond 01.03.21	Mawrth/Tuesd 02/03/21	Merch/Wedn 03.03.21
Meith/ Nursery	Meithrin Nursery Miss A Morris	Meithrin Nursery Miss A Morris	Meithrin Nursery Miss A Morris	Meithrin Nursery Miss A Morris
Derbyn Reception	Derbyn Grŵp 1 Miss Z Williams	Derbyn Grŵp 2 Miss Z Williams	Derbyn Pawb Miss Z Williams	Derbyn Pawb Miss Z Williams
Bl.1&2 Yr.1&2	Dysgu o bell / ar lein Distance / On-line learning	Blwyddyn 1 Year 1 Miss M Davies Miss D Dempsey Miss E Richards	Blwyddyn 2 Year 2 Miss M Davies Miss D Dempsey Miss E Richards	Blwyddyn 1 a 2 Year 1 & 2 Miss M Davies Miss D Dempsey Miss E Richards

Grŵp 1 - Dydd Gwener 26.02.21

Vaughn	Awen	Nelly-Lou	Ava J	Ava R	Poppy
Jackson	George	Ronnie	Wyatt	Calon	Caitlyn
Maizie	Emlyn	Owain			

Grŵp 2 - Dydd Llun 01.03.21

Cameron	Anni	Bethan	Braith	Emily	Harper
Edward	Rhion	Dewi	Holly	Ciaha-Lea	Hugo
Jacob	Killian	Riley			

Amseroedd cychwyn a gorffen

Meithrin	9:00 - 11:30
Derbyn	9:15 - 14:45
Blwyddyn 1 & 2	9:15 - 14:45

Meithrin Mwy - Bydd y ddarpariaeth Meithrin Mwy ar gael i ddisgyblion oed meithrin o **ddydd Llun Mawrth 1af ymlaen**. Bydd angen sicrhau eich bod wedi trefnu bod lle i'ch plentyn ar gyfer y sesiwn p'nawn. Bydd y sesiwn yn gorffen am 3 o'r gloch.

Clwb Brechwast / Clwb ar ôl ysgol - Ni fydd clybiau brechwast na chlwb ar ôl ysgol ar gael yn ystod y cyfnod yma. Nid ydym mewn sefyllfa i ail agor y ddarpariaeth ar hyn o bryd o oherwydd rhesymau yn ymwneud ac iechyd a diogelwch. Byddwn yn eich hysbysu pan y bydd y ddarpariaeth ar gael unwaith eto.

Cyrraedd / Mynd adref - Fel y trefniadau a weithredwyd cyn y Nadolig, yn y bore, bydd y plant yn dod i mewn i'r ysgol drwy'r giât flaen sydd ar ochr dde yr adeilad o'r maes parcio. (**dosbarth meithrin yn unig drwy'r giât chwith yn y bore**). Ar ddiwedd y dydd, byddwn yn agor y giât ar gyfer rheini/gofalwyr y plant o ddosbarthiadau penodol. **Pan ar gampws yr ysgol, gofynnir i bob rhiant/ofalwr wisgo gorchudd wyneb neu fwgwd addas. A fydddech cystal â pharchu iechyd a diogelwch eraill drwy gadw pellter diogel oddi wrth eraill.**

Rydym yn gweithredu trefn amserlen fel y tymor diwethaf, sydd wedi lleihau y nifer o oedolion sydd yn cyrraedd y buarth i gasglu'r plant. Er hyn, mae'n parhau i fod yn le prysur, ac felly gofynnir i bawb gadw pellter diogel o eraill a chymryd gofal wrth ymadael a'r buarth a safle'r ysgol. **Er mwyn hwyluso'r trefniadau ymhellach, a chadw'r nifer o oedolion sydd ar fuarth yr ysgol, un oedolyn/ofalwr a ganiateir i ddod ar y buarth i gasglu'r plentyn.** Rydym yn eich annog i gadw eich plentyn gyda chi unwaith y mae ef/hi wedi ei ryddhau gan yr athro/awes ddosbarth, er mwyn osgoi fod y plant yn cymysgu gyda phlant sydd y tu allan i'w grŵp dosbarth.

A fydddech cystal â osgoi cyrraedd ar gampws yr ysgol fwy na 5 munud cyn yr amser gollwng/casglu. Unwaith y byddwch wedi gollwng eich plentyn yn yr ysgol yn y bore a / neu gasglu ar ddiwedd y prynhawn, rydym yn gofyn i bob rhiant ymadael a safle'r ysgol cyn gynted ac sydd yn bosib. Byddai hyn yn gymorth mawr i'n trefniadau dyddiol. Diolch

Gwisg ysgol - Gyda phob plentyn yn dychwelyd i'r ysgol, bydd gofyn i'r plant wisgo gwisg ysgol. Mae manylion ynglŷn â pholisi gwisg ysgol wedi ei ddosbarthu ar sawl achlysur yn y gorffennol, ac y mae hefyd ar gael ar wefan yr ysgol.

Cinio Ysgol - Bydd cinio ysgol ar gael o ddydd Gwener Chwefror y 26ain ymlaen. Bydd angen i daliadau hwyluso trefniadau iechyd a diogelwch, os byddai taliadau cinio yn cael ei gwneud ar-lein. Cysylltwch gyda'r swyddfa os ydych angen y wybodaeth berthnasol i wneud hyn.

Iechyd & Diogelwch - Unwaith eto rydym wedi ail-ymweld ac asesiad risg covid -19 yr ysgol, ac wedi derbyn cyngor yr Awdurdod Lleol ar hwn cyn i'r plant ddychwelyd. Byddwn yn ymdrechu i osgoi cymysgu grwpiau eang o ddisgyblion, yn atgoffa'r plant yn rheolaidd am reolau ymbellhau a golchi dwylo rheolaidd. Byddem yn gwerthfawrogi eich cymorth gyda hyn, drwy atgyfnerthu'r negeseuon pwysig hyn adref er lles a diogelwch pob plentyn ac oedolyn sydd yn gweithio o fewn yr ysgol. Byddwn yn disgwyl cydweithrediad llawn gan bob plentyn o ran y rheolau hyn. Os byddwn yn gweld fod unigolyn, yn ei chael hi'n anodd i gadw at y trefniadau a'r rheolau, ac yn rhoi eraill mewn sefyllfaoedd anghyfforddus, byddwn yn cysylltu gyda rhieni/ofalwyr er mwyn trefnu i'r unigolyn gael ei gasglu o'r ysgol er mwyn cael cyfnod hirach o ymarfer y rheolau hyn yn ddiogel adref. Bydd staff yn gwisgo offer amddiffyn personol priodol yn ystod y dydd. Bydd holl staff hefyd yn hunan-brofi yn rheolaidd ar gyfer Covid-19 drwy ddefnydd pecynnau profi a ddosbarthwyd gan Lywodraeth Cymru.

Cyswllt athro/rhiant - Ar hyn o bryd, ni fydd yr athrawon dosbarth yn gallu cyfarfod wyneb i wyneb gyda rhieni/gofalwyr. Os oes mater pwysig yr hoffech ei drafod ynglŷn ag addysg eich plentyn, yna bydd angen gwneud hyn drwy alwad ffôn neu e-bost i'r athro/awes ddosbarth.

Rydym i gyd yn wynebu cyfnod heriol arall wrth i'r disgyblion ddychwelyd i'r ysgol, a bydd yn allweddol fod pob aelod o gymuned yr ysgol yn dilyn y trefniadau a'r gofynion iechyd a diogelwch sydd mewn lle. Gofynnwn yn garedig am gydweithrediad pawb gyda'r trefniadau hyn. Cofiwch gadw golwg allan ar Schoop, safle Trydar yr ysgol, App yr Ysgol, yn ogystal â gwefan byr ysgol ar gyfer gwybodaeth a newyddion arwyddocaol.

Unwaith eto hoffwn eich atgoffa i gofio cysylltu os oes gennych unrhyw gwestiwn neu bryder. Cysylltwch gyda'r athro/awes ddosbarth am unrhyw ymholiad ynglŷn â'r gwaith, neu gyda'r swyddfa mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk am unrhyw ymholiad cyffredinol.

Cofion gorau atoch a chadwch yn ddiogel gan gymryd gofal gyda'ch teuluoedd.

Diolch yn fawr.

Yn gywir,

Mr Rhodri Jones

Pennaeth